# Y Pwyllgor Menter a Busnes

## Cofnodion (EL(3) 04-09)

**Dyddiad: Dydd Iau, 12 Chwefror 2009**
**Amser: 9:30am – 11:15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Gareth Jones (Cadeirydd), Aberconwy
Christine Chapman, Cwm Cynon
Andrew RT Davies, Canol De Cymru
Nerys Evans, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Huw Lewis, Merthyr Tudful a Rhymni
David Melding, Canol De Cymru
Jenny Randerson, Canol Caerdydd

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Dr Kathryn Jenkins, Clerc
Daniel Collier, Dirprwy Glerc

### Arbenigwr y Pwyllgor

Ben Stokes, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eraill yn bresennol

Ieuan Wyn Jones, Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Gareth Hall, Cyfarwyddwr yr Adran Economi a Thrafnidiaeth

Tracey Burke, Cyfarwyddwr Polisi, Strategaeth a Gwasanaethau, yr Adran Economi a Thrafnidiaeth

Robin Shaw, Cyfarwyddwr, Trafnidiaeth Cymru

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Jeff Cuthbert a Sandy Mewies.

### 2: Ymchwiliad y Pwyllgor i ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r dirywiad economaidd rhyngwladol
### Papur: EL(3) 04-09 – Papur 1, Atodiad 1, Atodiad 2

**Llywodraeth Cynulliad Cymru**

2.1 Croesawodd y Pwyllgor Ieuan Wyn Jones, Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth; Gareth Hall, Cyfarwyddwr yr Adran Economi a Thrafnidiaeth; Tracey Burke, Cyfarwyddwr Polisi, Strategaeth a Gwasanaethau, yr Adran Economi a Thrafnidiaeth; a Robin Shaw, Cyfarwyddwr, Trafnidiaeth Cymru.

2.2 Bu'r Pwyllgor yn holi'r Gweinidog.

**Camau i'w cymryd:**

Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ddarparu:

Manylion sefydliadau a wahoddwyd i'r uwchgynadleddau economaidd.

Y diweddaraf am nifer y busnesau sydd wedi elwa drwy'r cynllun Cymorth Hyblyg i Fusnes yng Nghymru.

Manylion neilltuo arian cydgyfeirio ar gyfer y sector Addysg Bellach.

Gwybodaeth am waith a phatrwm gweithredu Cyllid Cymru.

Gwybodaeth am nifer y busnesau yng Nghymru sydd wedi elwa o gynlluniau yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio.

### 3: Adroddiad drafft y Pwyllgor ar Blismona'r Ffyrdd yng Nghymru - Y Maniffesto, 2009

**Papur: EL(3) 03-09 – Papur 2, Atodiad 1**

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft ar Blismona'r Ffyrdd yng Nghymru – Y Maniffesto, 2009. Caiff yr adroddiad ei osod gerbron y Cynulliad cyn bo hir.

### Cofnodion y cyfarfod diwethaf
### Papur: EL(3) 03-09 - Cofnodion

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Chwefror 2009**